# Pleidleisiau a Thrafodion - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 10 Mehefin 2020

Amser y cyfarfod: 11.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/6346

## 279

Dechreuodd yr eitem am 11.00

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r Cyfarfod Llawn rhithwir a dywedodd fod y Cyfarfod Llawn hwn, a gynhelir drwy gynhadledd fideo yn unol â Rheolau Sefydlog Senedd Cymru, yn gyfystyr â thrafodion y Senedd at ddibenion Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Dywedodd y Llywydd, ar ôl ymgynghori â'r Pwyllgor Busnes, y bydd rhai o ddarpariaethau Rheol Sefydlog 34 yn gymwys - nodwyd pob un ohonynt ar yr agenda.

Dywedodd y Llywydd fod y cyhoedd, yn unol â Rheol Sefydlog 34.15, wedi cael eu gwahardd rhag mynychu'r Cyfarfod Llawn hwn, fel sy'n ofynnol er mwyn amddiffyn iechyd y cyhoedd, ond byddai'r cyfarfod yn cael ei ddarlledu'n fyw a byddai cofnod o'r trafodion yn cael ei gyhoeddi yn y ffordd arferol.

Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa gan y Llywydd hefyd y byddai Rheolau Sefydlog yn ymwneud â threfniadau a threfn busnes yn y Cyfarfod Llawn yn gymwys i'r cyfarfod hwn.

### Munud o Dawelwch

Cyn dechrau trafodion heddiw gofynnodd y Llywydd i Aelodau'r Senedd ymuno â hi i gynnal munud o dawelwch i gofio George Floyd a sefyll mewn undod â mudiad Black Lives Matter ym mhob cwr o'r byd.

## 1 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 11.01

## 2 Datganiad gan y Prif Weinidog: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 11.01

## 3 Cwestiynau Amserol

Ni dderbyniwyd unrhyw Gwestiynau Amserol

## 4 Datganiad gan Weinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru: Ymateb i Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 13.21

## 9 Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Chysylltiadau Rhyngwladol: Coronafeirws (COVID-19)

Dechreuodd yr eitem am 14.25

## 6 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Ansolfedd a Llywodraethu Corfforaethol

Dechreuodd yr eitem am 15.27

**NDM7330 Julie James (Gorllewin Abertawe):**

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Ansolfedd a Llywodraethu Corfforaethol i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 2 Mehefin 2020 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 7 Cynnig i ddirymu Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020

Dechreuodd yr eitem am 15.36

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

**NDM7329** Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.2,:

Yn cytuno bod Rheoliadau Llywodraeth Leol (Coronafeirws) (Gohirio Etholiadau) (Cymru) 2020, a osodwyd gerbron y Cynulliad ar 29 Ebrill 2020, yn cael eu dirymu.

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 1 | 43 | 57 |

**Gwrthodwyd y cynnig.**

## 8 Dadl Plaid Cymru - Yr Economi a Covid-19

Dechreuodd yr eitem am 15.51

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y Cyfnod Pleidleisio.**

Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig heb ei ddiwygio:

**NDM7331** Sian Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sefydlu cynllun gwarantu cyflogaeth i bobl ifanc sy'n dioddef diweithdra o ganlyniad i Covid-19;

b) sefydlu cynllun ailhyfforddiant ac ailsgilio swyddi wedi'i gynllunio i genfogi'r rhai sydd angen canfod cyflogaeth amgen yn dilyn yr argyfwng;

c) cynnull cynulliad dinasyddion i drafod sut y dylai Cymru "Adeiladu Nôl yn Well" yn dilyn profiad o'r argyfwng; a

d) sefydlu "Cronfa Adnewyddu Cymru Gyfan" gwerth biliynnau o bunnoedd i ariannu'r gwaith o ailadeiladu ein gwlad.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 10 | 0 | 47 | 57 |

**Gwrthodwyd y cynnig heb ei ddiwygio.**

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1 –** Rebecca Evans (Gwyr)

Dileu popeth a rhoi'r canlynol yn ei le:

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r pecyn o gymorth cyflogadwyedd sydd ar gael ar hyn o bryd drwy Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cynllun Twf Swyddi Cymru, sy'n gynllun mawr ei barch sydd wedi helpu dros 19,000 o bobl ifanc i gael swyddi o ansawdd da, a hefyd raglen ReAct sydd wedi bod yn helpu unigolion ers degawd a mwy i ailhyfforddi ac i ddod o hyd i swyddi newydd.

2. Yn nodi Cronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru, sy'n werth £500 miliwn, ac sy'n helpu miloedd o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru ar hyn o bryd i gadw i fynd ac i gadw unigolion mewn gwaith, ac a fydd yn helpu gyda'r adferiad yn y dyfodol.

3. Yn nodi'r gwaith arbenigol ar gynllunio ar gyfer yr adferiad sy'n cael ei gydgysylltu ar draws Llywodraeth Cymru gan y Cwnsler Cyffredinol, a hefyd y gwaith y mae Gweinidog yr Economi yn ei wneud i nodi rhagor o ymyriadau ym maes sgiliau a fydd yn gallu helpu pobl i ailhyfforddi'n effeithiol yn ystod y misoedd sydd i ddod ac yn ystod y cyfnod adfer.

4. Yn croesawu'r trafodaethau adeiladol y mae Gweinidog yr Economi wedi'u cael gyda phob parti ynglŷn â sut y gellir cynnig y rhagolygon gorau posibl i bobl ifanc wrth inni ddod allan o gyfnod y Coronafeirws.

5. Yn cydnabod bod angen gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'r undebau llafur a busnesau i Ailadeiladu'n Well ar gyfer y dyfodol.

6. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi neilltuo bron £2.5 biliwn ar gyfer ei hymateb i Covid-19 ers mis Mawrth 2020, yn nodi hefyd faint yr argyfwng economaidd sy'n wynebu'r Deyrnas Unedig gyfan ac yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatblygu pecyn sylweddol i ysgogi'r economi a fydd yn gallu ategu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i greu adferiad gwyrdd a theg.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 4 | 23 | 57 |

**Derbyniwyd gwelliant 1.**

**Gan fod gwelliant 1 wedi'i dderbyn, cafodd gwelliannau 2, 3, 4 a 5 eu dad-ddethol**

**Gwelliant 6 –** [Neil McEvoy (Caol De Cymru)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Er mwyn ailadeiladu Cymru yn economaidd o ganlyniad i argyfwng Covid-19, yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) sicrhau bod y cynllun rhyddhad ardrethi busnes Covid-19 yn cefnogi busnesau sy'n meddiannu eiddo ac nid landlordiaid sy'n berchen ar yr eiddo hwnnw;

b) rhoi cymorth i'r rhai yn y diwydiant lletygarwch sy'n talu rhent llawn i gwmnïau tafarndai yn ystod yr argyfwng;

c) deddfu i alluogi cwmnïau o Gymru i wneud cais llwyddiannus am gontractau sector cyhoeddus Cymru; a

d) cyfeirio'i pholisi economaidd tuag at adferiad a gaiff ei arwain gan allforio bwyd a diod drwy greu diwydiant chwisgi cyflawn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 2 | 24 | 31 | 57 |

**Gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig fel y'i diwygiwyd:**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi'r pecyn o gymorth cyflogadwyedd sydd ar gael ar hyn o bryd drwy Lywodraeth Cymru, gan gynnwys cynllun Twf Swyddi Cymru, sy'n gynllun mawr ei barch sydd wedi helpu dros 19,000 o bobl ifanc i gael swyddi o ansawdd da, a hefyd raglen ReAct sydd wedi bod yn helpu unigolion ers degawd a mwy i ailhyfforddi ac i ddod o hyd i swyddi newydd.

2. Yn nodi Cronfa Cadernid Economaidd Llywodraeth Cymru, sy'n werth £500 miliwn, ac sy'n helpu miloedd o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru ar hyn o bryd i gadw i fynd ac i gadw unigolion mewn gwaith, ac a fydd yn helpu gyda'r adferiad yn y dyfodol.

3. Yn nodi'r gwaith arbenigol ar gynllunio ar gyfer yr adferiad sy'n cael ei gydgysylltu ar draws Llywodraeth Cymru gan y Cwnsler Cyffredinol, a hefyd y gwaith y mae Gweinidog yr Economi yn ei wneud i nodi rhagor o ymyriadau ym maes sgiliau a fydd yn gallu helpu pobl i ailhyfforddi'n effeithiol yn ystod y misoedd sydd i ddod ac yn ystod y cyfnod adfer.

4. Yn croesawu'r trafodaethau adeiladol y mae Gweinidog yr Economi wedi'u cael gyda phob parti ynglŷn â sut y gellir cynnig y rhagolygon gorau posibl i bobl ifanc wrth inni ddod allan o gyfnod y Coronafeirws.

5. Yn cydnabod bod angen gweithio mewn partneriaeth gymdeithasol â'r undebau llafur a busnesau i Ailadeiladu'n Well ar gyfer y dyfodol.

6. Yn cydnabod bod Llywodraeth Cymru wedi neilltuo bron £2.5 biliwn ar gyfer ei hymateb i Covid-19 ers mis Mawrth 2020, yn nodi hefyd faint yr argyfwng economaidd sy'n wynebu'r Deyrnas Unedig gyfan ac yn galw ar Lywodraeth y DU i ddatblygu pecyn sylweddol i ysgogi'r economi a fydd yn gallu ategu'r gwaith y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i greu adferiad gwyrdd a theg.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 30 | 4 | 23 | 57 |

**Derbyniwyd y cynnig fel y'i diwygiwyd.**

## 9 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 16.55

Daeth y cyfarfod i ben am 17.02

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 11.00, Dydd Mercher, 17 Mehefin 2020**